Snap dail

Trosolwg

Drwy gymharu dail yn ystod gwahanol dymhorau, gall y plant ddechrau datblygu sgiliau rhesymu a chreu eu meini prawf eu hunain ar gyfer paru'r dail â'i gilydd.



Gweithgareddau

Rhowch amser i'r plant gasglu dail anogwch nhw i gasglu dail sydd wedi disgyn.

Rhowch y plant mewn parau a rhowch bentwr o ddail i bob pâr.

Yn eu tro, dylai'r plant osod deilen yn y canol gan chwilio am debygrwydd rhwng dwy ddeilen.

Os byddant yn sylwi ar nodwedd sy'n gyffredin â'r ddeilen flaenorol, dylent weiddi 'snap' a gosod eu llaw ar y pentwr yn y canol.

Rhaid iddynt esbonio eu rhesymeg cyn ychwanegu'r pentwr canol o ddail at eu pentwr eu hunain.

Dylent barhau nes y bydd un plentyn heb ddail.

Offer

- Amrywiaeth o wahanol ddail
- Ceisiwch gasglu dail o wahanol siâp, maint a rhywogaeth

Cwestiynau allweddol

Siaradwch am y gwahanol ffyrdd y gwnaeth y plant baru'r dail.

Esboniwch nad oes atebion cywir ac anghywir, cyhyd â bod y plant yn gallu rhoi rheswm dros eu penderfyniad.

Deilliannau dysgu

- Iaith – esbonio rhesymeg a defnyddio geiriau disgrifiadol.
- Mathemateg – maint a siâp y dail, cyfrif, cymesuredd.
- Archwilio eitemau naturiol yn fanylach, rhannu a chymryd eu tro.

Symud y dysgu yn ei flaen

- Dysgu hunangyfeiriedig – gadewch amrywiaeth o ddail allan i'r plant eu rhoi mewn trefn yn ôl eu meini prawf eu hunain neu'u grwpio gyda'i gilydd mewn gwahanol ffyrdd.
- Gwyddoniaeth – archwilio sut y mae dail yn newid o dymor i dymor a pham.